



Cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel

Eich canllaw am Hawliau plant a phobl ifanc



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Beth ydy diogelu da: Dim penderfyniad amdanaf fi hebof fi'.

Tachwedd 2022

Cyflwyniad



Dyma daflen am Hawliau plant a phobl ifanc.



Hawliau ydy'r pethau rydych chi'n cael eu gwneud. Mae hawliau yn dweud wrthyn ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraift mae gennych chi yr hawl i gael eich trin gyda pharch. Mae gan bobl eraill hawliau hefyd. Er enghraift, rhaid i chi drin pobl eraill gyda pharch.



Rydyn ni eisiau i bawb yng Nghymru wybod am Hawliau plant a phobl ifanc i'w **diogelu** nhw.



Rydyn ni eisiau i gyrrff wneud cynlluniau a pholisiau **diogelu**.



Mae diogelu yn meddwl cadw pobl yn ddiogel rhag:

- **camdriniaeth**
- niwed.



Camdriniaeth ydy pan mae rhywun yn eich anafu neu yn eich trin yn ddrwg.

Er enghraifft:

Anafu rhywun yn gorfforol

Siarad gyda rhywun mewn ffordd greulon

Anafu rhywun yn rhywiol

Cymryd arian rhywun.



Rydyn ni eisiau gwneud gwahaniaeth positif i ofal a chymorth yng Nghymru i blant a phobl ifanc.



Mae'r ddogfen yma i bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.



Mae'r daflen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

Fy Hawliau fel plentyn neu berson ifanc

Mae gen i yr Hawl i:



- Cael fy nhrin yn deg.



- Gwybod bod yr oedolion sydd yn gofalu amdanaf bob amser yn ceisio gwneud beth sydd orau imi.



- Byw i dyfu i fyny a byw bywyd llawn.



- Byw bywyd llawn ac annibynnol os oes gen i anghenion ychwanegol i gael y gofal a'r cymorth rydw i ei angen.



- Bwyd a diod da.



- Gweld meddyg neu nyrs os ydw i'n sâl neu wedi anafu.



- Mynd i'r ysgol i ddysgu ac ar gyfer fy **llesiant**.

Mae **llesiant** yn golygu gallu tyfu i fyny yn hapus ac yn llwyddiannus, a derbyn gofal.



- Cael fy annog i fod y gorau rydw i'n gallu bod.



- Ymlacio a chwarae.



- Cael fy nghadw'n ddiogel rhag cael fy anafu neu gael fy nhrin yn ddrwg gan bobl eraill.



- Cael fy nghadw'n ddiogel rhag **camdriniaeth rhywiol**.



- Cael fy nghadw'n ddiogel rhag pethau sydd yn gallu fy niweidio.



- Byw mewn cartref sydd yn fy helpu i fod yn hapus, iach a chyfforddus.



- Cael help i ddeall beth mae 'cadw'n ddiogel' yn ei feddwl.



- Dweud beth rydw i'n feddwl ac yn ei deimlo, os oes rhywun yn poeni fy mod mewn perygl.



- Dweud wrth rhywun neu cael cefnogaeth i siarad gyda rhywun os ydw i'n poeni am rhywbeth.
- Cael help a chefnogaeth i siarad am **gamdriniaeth**, niwed neu **esgeulustod**.



Esgeulustod ydy pan nad ydy rhywun yn edrych ar eich ôl yn iawn.



- Cael help os ydw i wedi cael fy **ngham-drin**.



- Bod yn rhan o unrhyw benderyfniadau amdanaf i a fy mywyd.



- Bod rhywun yn gwrando arnaf i ac yn fy nghymryd o ddifrif.



- Cael yr wybodaeth rydw i ei angen mewn ffordd rydw i yn gallu ei ddeall.



- Gwybod am bethau sydd yn digwydd yn fy mywyd.



- Gwybod pa benderfyniadau sydd yn cael eu gwneud er lles imi. A bod hyn yn cael ei esbonio imi.



- Cael pobl sydd yn gallu siarad Cymraeg gyda mi os ydw i eisiau.



- Cael pobl sydd yn gallu siarad gyda mi yn yr iaith o fy newis i.

Fy Hawliau fel gofalwr di-dâl a rhiant

Dyma hawliau gofalwyr di-dâl a rhieni. Os ydych chi dan 18 oed mae'r holl Hawliau'r plentyn sydd wedi cael eu hysgrifennu uchod yn berthnasol i chi hefyd.

Mae gen i'r Hawl i:



- Cael gwybodaeth dda mewn ffordd rydw i'n gallu ei ddeall.



- Gwybod sut a lle i gael help a chefnogaeth os ydw i ei angen.



- Gwybod beth i'w wneud os ydw i yn poeni am fy mhlentyn neu am y person rydw i'n gofalu amdanyn nhw.



- Gwybod sut i adrodd am **gamdriniaeth**, niwed neu **esgeulustod**.



- Deall nad ydw i bob amser efallai yn gwybod popeth sydd yn gallu achosi niwed i fy mhlentyn neu i'r person rydw i'n gofalu amdanyn nhw.



- Gwybod pan mae pobl yn gwneud penderfyniadau am fy mhlentyn neu'r person rydw i'n gofalu amdanyn nhw, maen nhw i'w cadw nhw'n ddiogel.



- Mae gen i yr hawl i herio penderfyniadau sydd yn cael eu gwneud am fy mhlentyn neu am y person rydw i'n gofalu amdanyn nhw nad ydw i'n cytuno gyda nhw.